# Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Yn y testun a ganlyn, mae'r rhannau mewn **du** wedi'u cymryd o'r dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018 (234/2018) a Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru a threfniadau adrodd 2017/18.

Mae'r testun mewn **glas** yn gyfarwyddyd gan NASUWT. Mae'r rhannau sydd mewn print **trwm a glas** wedi'u cymryd o'r ddogfen Cyfarwyddiadau NASUWT am Weithredu Cenedlaethol – Cam 4 a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2016.

## Diben y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r berthynas â phrofion eraill sydd ar gael i ysgolion

Mae'r Profion Cenedlaethol at ddefnydd diagnostig, er mwyn sicrhau bod gan athrawon ym mhob ysgol a gynhelir wybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr…

Maent yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd dysgwyr, ac nid ar berfformiad ysgolion nac ar atebolrwydd. Dyma pam nad yw canlyniadau'r Profion Cenedlaethol yn cael eu cynnwys yn y gyfres o fesuriadau perfformiad ar gyfer categoreiddio ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y byddant yn disodli, yn hytrach nag ategu, unrhyw brofion darllen a rhifedd a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yng Nghymru cyn iddynt gael eu cyflwyno.

## Y cyfarwyddyd gan NASUWT

Mae NASUWT wedi croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli'n ddiweddar bod angen symud i ffwrdd oddi wrth system atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol. Fodd bynnag, nid yw'r Undeb wedi lleisio barn eto am nad yw wedi'i ddarbwyllo y bydd yr addasiadau arfaethedig i'r rheoliadau cyfredol yn ddigonol i sicrhau bod asesiadau'n canolbwyntio ar wella'r dysgu.

Mae NASUWT yn disgwyl i'r holl ysgolion roi trefniadau yn eu lle sy'n cydymffurfio'n llawn â'r pwyntiau sydd wedi'u nodi yn y papur briffio hwn.

Dylai aelodau gysylltu â'r Undeb yn y ffyrdd a ddisgrifir ar ddiwedd y papur briffio hwn os oes unrhyw bryderon ganddynt am y trefniadau yn eu hysgol hwy.

## Gweinyddu'r profion

Bydd gofyn i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys rhai cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, a sefydledig) gymryd y Prawf Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Rhaid sefyll y profion yn ystod y cyfnodau canlynol:

- Ysgolion cynradd: rhwng 2 a 9 Mai 2018.
- Ysgolion uwchradd: rhwng 25 Ebrill 2018 a 9 Mai 2018.
- Ysgolion canol: rhwng 25 Ebrill 2018 a 9 Mai 2018.

Gan fod papur Prawf Darllen Cenedlaethol Blwyddyn 7 yr un fath â'r papur a gymerir gan ddysgwyr Blwyddyn 6, rhaid cynnal Prawf Darllen Cenedlaethol Blwyddyn 7 yn ystod y cyfnod 2-9 Mai 2018.

Dylai ystyriaethau ymarferol fel caniatáu digon o amser i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r deunyddiau ysgogi ar gyfer rhesymu mathemategol cyn y profion gael eu hystyried yn ogystal. Unwaith y bydd y dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y profion, rhaid eu rhannu o flaen llaw gyda'r consortiwm rhanbarthol, a dylid rhoi gwybod i'r rhieni/gofalwyr a'r dysgwyr.

Dylai'r profion gael eu gweinyddu i ddosbarthiadau cyfan fel arfer.

Gall y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) gael eu gweinyddu i ddosbarth cyfan yn yr ystafell ddosbarth neu mewn ystafelloedd mwy i grwpiau mwy, e.e. i grŵp blwyddyn yn neuadd yr ysgol.

Ond rhaid i'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) gael ei weinyddu mewn amgylchedd sy'n caniatáu i bob dysgwr allu gweld a chlywed y deunyddiau ysgogi a gyflwynir cyn pob prawf. Mae hyn yn debygol o olygu na fydd modd defnyddio ystafelloedd arholi neu neuaddau ysgol.

Er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth am gynnwys y prawf, o dan amgylchiadau arferol dylai ysgolion weinyddu'r profion fel bod gwahanol eisteddiadau ar gyfer prawf unigol yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod.

Ni ddylid cynnal y Prawf Rhifedd (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd (Rhesymu) ar gyfer grŵp blwyddyn ar yr un diwrnod, er mwyn osgoi gorlwytho'r dysgwyr.

### Profion mewn lleoliadau eraill (e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion)

Rhaid i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 2 i 9 sydd ar gofrestr ysgol brif ffrwd sefyll y Profion Cenedlaethol, a rhaid i'w canlyniadau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Pennaeth yr ysgol brif ffrwd lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y profion yn cael eu gweinyddu i'r dysgwr. Os caiff y profion eu sefyll yn yr uned cyfeirio disgyblion, mae pennaeth yr ysgol brif ffrwd yn parhau i fod yn gyfreithiol gyfrifol bob amser am sicrhau bod y profion hynny wedi'u gweinyddu'n briodol.

### Derbyn a storio deunyddiau'r profion

Mae'n rhaid i lyfrynnau'r profion a'r cynlluniau marcio barhau'n gyfrinachol hyd nes y caiff y profion eu sefyll. Os cânt eu hagor i wirio'r nifer, mae'n rhaid eu hailselio ar unwaith a'u storio mewn lle diogel hyd nes y bydd eu hangen ar gyfer gweinyddu neu farcio'r profion.

Ac eithrio i addasu'r deunyddiau, **ni chaniateir** gwneud llungopïau o unrhyw dudalennau o'r llyfrynnau profion.

Bydd pecynnau'r profion hefyd yn cynnwys canllawiau ynghylch gweinyddu'r profion. Nid yw'r eitemau hyn yn gyfrinachol a chânt eu pecynnu mewn ffilm glir gyda label eglur: "**PWYSIG** Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am baratoi ar gyfer y profion. Dylid ei agor a'i roi ar unwaith i'r person sy'n gyfrifol am weinyddu'r profion."

Ar ôl i'r profion gael eu gweinyddu dylai papurau'r profion a'r deunyddiau atodol gael eu cadw o dan amodau diogel am o leiaf flwyddyn rhag ofn y bydd unrhyw ymholiadau ar ôl gweinyddu. Ar ôl blwyddyn mae'n rhaid i'r ysgol drefnu bod papurau'r profion yn cael eu gwaredu mewn modd diogel.

### Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 25:* Dylai aelodau wrthod gwneud tasgau gweinyddol a chlercyddol fel y gwelir esiamplau ohonynt yn Atodiad 4 y STPCD.**

Ni ellir gofyn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol yn rheolaidd.

- Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol

Dylai aelodau eu diogelu eu hunain yn erbyn unrhyw honiad o gamymddygiad ac, oni bai eu bod yn bennaeth ar yr ysgol neu'n gynrychiolydd priodol sydd â chyfrifoldeb fel pennaeth canolfan, ni ddylent gymryd rhan yn y gwaith o dderbyn a storio deunyddiau ar gyfer y profion.

### Ymgyfarwyddo â'r prawf

Rhan hanfodol o'r Prawf Rhifedd (Rhesymu) fydd y deunyddiau ysgogi a byddant yn gymorth ac yn sail i'r ymateb i gwestiynau'r prawf. Bydd angen i'r sawl a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r sesiynau ysgogi ymgyfarwyddo â'r rhain ymlaen llaw a hefyd sicrhau bod y disg sy'n cynnwys y cyflwyniad yn gweithio'n iawn.

Mae nifer o adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth ar wefan Dysgu Cymru y gellir eu defnyddio i sicrhau bod

dysgwyr yn gyfarwydd â'r math o weithgareddau y gallent ddod ar eu traws yn y Profion Cenedlaethol. Nid oes angen treulio amser hir yn ystod gwersi, felly, ar helpu dysgwyr i ymgyfarwyddo â thechnegau'r profion.

Gall drilio ar gyfer profion diagnostig guddio anawsterau y gallai rhai dysgwyr fod yn eu hwynebu. Mae disgwyl i bob ysgol gynnal cwricwlwm eang a chytbwys gydol y flwyddyn ysgol.

Gall gormod o bwyslais ar baratoi, 'ymarfer' gan ddefnyddio hen bapurau a rhoi cwestiynau profion blaenorol yn waith cartref beri gofid i ddysgwyr ac maent yn arferion amhriodol o fewn cyd-destun profion diagnostig.

### Y cyfarwyddyd gan NASUWT

Mae NASUWT wedi croesawu'r cyngor gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chynnal cwricwlwm eang a chytbwys drwy gydol y flwyddyn ysgol ac am beidio addysgu ar gyfer sefyll y profion. Mae hefyd wedi croesawu dymuniad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ag NASUWT i adolygu effaith y system atebolrwydd ar arferion asesu mewn ysgolion.

Mae'r Undeb wedi annog Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfle i sicrhau mwy o ryddid i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth fabwysiadu dulliau asesu sy'n rhoi gwybodaeth a data gwirioneddol ystyrlon iddynt am gynnydd a chyflawniad disgyblion.

### Sefyll y profion

Rhaid i'r profion gael eu gweinyddu o dan amodau prawf priodol.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 2 a 3, am resymau cywirdeb, efallai yr hoffech lenwi manylion rhai o'r dysgwyr eich hun (e.e. ysgol, dyddiad geni, dyddiad y prawf).

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau nad yw'r dysgwyr yn gweld unrhyw ddeunyddiau a allai, o safbwynt cynnwys y profion, roi mantais annheg iddynt, e.e. siartiau ar y wal neu adnoddau tebyg yn yr ystafell ddosbarth.

Wrth i'r dysgwyr weithio drwy'r prawf, dylech wneud yn siŵr o bryd i'w gilydd eu bod yn deall yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud a'u bod yn gweithio drwy'r holl gwestiynau.

Y Prawf Darllen Cenedlaethol – Ni ddylech ddarllen unrhyw ran o'r testun neu'r cwestiynau i'r dysgwyr heblaw'r adran 'Cwestiynau ymarfer'. Wrth fonitro'r dysgwyr sy'n gwneud y prawf, ni ddylid rhoi unrhyw gymorth gyda darllen y testun neu ddod o hyd i'r atebion cywir.

Y Profion Rhifedd Cenedlaethol – Yn ystod y profion, gallwch helpu'r dysgwyr i ddarllen y testun ond ni ddylech egluro ystyr unrhyw beth rhifiadol.

### Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 25:* Dylai aelodau wrthod gwneud tasgau gweinyddol a chlercyddol fel y gwelir esiamplau ohonynt yn Atodiad 4 y STPCD.**

Ni ellir gofyn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol yn rheolaidd.

- Paratoi, gosod a thynnu i lawr arddangosfeydd yn yr ystafell ddosbarth, yn unol â phenderfyniadau a wneir gan athrawon.

Felly, ni ddylid disgwyl i athrawon baratoi eu hystafelloedd dosbarth ar gyfer y profion.

### Yr unigolion a fydd yn gweinyddu'r profion

Mae'n debyg y bydd gan lawer o ysgolion brotocolau sefydledig ar waith ar gyfer profi dysgwyr yn flynyddol. Mae'n rhaid i ysgolion gadw mewn cof ddarpariaethau STPCD 2017.

Lle bo'r profion yn cael eu gweinyddu mewn lleoliadau dosbarthiadau a hynny, yn fras, yng nghyd-destun yr amser addysgu arferol sydd wedi'i amserlennu, mae'n bosibl y bydd hi'n rhesymol gofyn i athrawon eu gweinyddu.

Ar y llaw arall, os yw'r profion yn cael eu cynnal o dan amodau tebyg i arholiadau allanol, y tu allan i'r amser addysgu arferol ac o dan amodau arholiadau gwahanol, ar sail grŵp blwyddyn mewn neuadd arholiadau er

enghraifft, dylai ysgolion fod yn ymwybodol bod y profion hyn yn debygol o ddod o dan baragraff 52.8 o Adran 2.

*"Ni ddylai fod yn ofynnol i athro gyfranogi'n rheolaidd mewn unrhyw dasgau gweinyddol a threfniadol na gwaith swyddfa nad ydynt yn galw am arfer barn a sgiliau proffesiynol athro, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol, megis goruchwylio."*

### Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 23:* Dylai aelodau wrthod goruchwylio unrhyw arholiad cyhoeddus, gan gynnwys TGAU.**

Ni ddisgwylir i unrhyw athrawon, cynradd nac uwchradd, oruchwylio unrhyw arholiad cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys TGAU, Lefelau A neu unrhyw arholiad neu brawf arall a osodir yn genedlaethol.

Nid yw goruchwylio arholiadau'n gofyn am sgiliau a galluoedd athrawon cymwysedig.

Mae goruchwylio arholiadau, yn arbennig ar gyfer grwpiau a dosbarthiadau o'r disgyblion y maent yn eu haddysgu, yn gwneud athrawon yn agored i gyhuddiadau o gamymddygiad mewn arholiad ac yn tanseilio hyder y cyhoedd yn neilliannau'r arholiad.

Pan fydd athrawon yn cynnal profion gyda'r dosbarth neu'r grŵp y maen nhw'n ei addysgu fel arfer yn ystod eu hamser arferol ar eu hamserlen ac o dan y trefniadau i gynnal y wers, ni fydd y cyfarwyddyd yma'n gymwys.

Ni ddylid disgwyl i athrawon weinyddu'r profion, heblaw eu bod yn rhan o wers ar eu hamserlen ac yn cael eu sefyll yn ystafell ddosbarth yr athro/athrawes.

Mae'n ddisgwyliad rhesymol y dylai athro/athrawes fod yn bresennol ar ddechrau arholiad allanol yn eu maes pwnc i archwilio'r papur a sicrhau nad oes unrhyw broblemau gydag ef.

Dylai'r sawl sy'n goruchwylio'r arholiad fod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer delio ag argyfyngau ac ar gyfer cysylltu ag athro/athrawes yn y maes pwnc y mae'r arholiad yn ymdrin ag ef os bydd unrhyw ymgeisydd yn codi pryder neu broblem gyda'r papur, sy'n gofyn am eu barn broffesiynol.

Efallai hefyd y bydd yn briodol i athro/athrawes fod yn bresennol ar ddiwedd arholiad allanol er mwyn sicrhau ei fod yn dod i ben yn effeithlon. Wrth gyflawni tasgau o'r fath, ni ddylid disgwyl i athrawon aros yn y neuadd/ystafell arholi am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol er mwyn eu cyflawni.

Gall ysgolion gyflogi goruchwylwyr allanol os ydynt yn dymuno.

Mae'n bwysig bod y deunyddiau ysgogi sy'n dod cyn y profion yn cael eu cyflwyno gan rywun y mae'r dysgwyr yn gyfforddus yn ei gwmni.

### Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 25:* Dylai aelodau wrthod gwneud tasgau gweinyddol a chlercyddol fel y gwelir esiamplau ohonynt yn Atodiad 4 y STPCD.**

Ni ellir gofyn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol yn rheolaidd.

- Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol

Dylai aelodau eu diogelu eu hunain yn erbyn unrhyw honiad o gamymddygiad ac mae angen iddynt dderbyn sicrhad na fydd eu presenoldeb ar ddechrau neu ar ddiwedd y prawf yn eu rhoi mewn sefyllfa allai beryglu eu henw da.

### Marcio'r profion

Rhaid marcio pob papur prawf erbyn 6 Mehefin 2018 ar gyfer y Casglu Data ar Brofion Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi amser i lwytho'r sgoriau mewn da bryd. Mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol drefniadau ar gyfer dyddiad cwblhau cynharach.

Gall yr ysgolion ddewis pa aelodau o'u staff sy'n marcio'r profion. Mae cynlluniau marcio wedi'u llunio i gael eu gweithredu'n hawdd ac yn gyflym ac, lle y bo'n bosibl, i ddileu'r angen am farn broffesiynol ond bydd dal angen rhywfaint o farn mewn ambell sefyllfa.

Dylai'r cynlluniau marcio ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol fod yn ganllaw hefyd i ddehongli ac adeiladu ar berfformiad dysgwyr a dosbarthiadau. Dylai ysgolion gadw hyn mewn cof, ynghyd â darpariaethau paragraff 52.8 o Adran 2 STPCD 2017 y cyfeiriwyd ati yn flaenorol, wrth benderfynu pwy ddylai farcio'r profion.

Ysgolion fydd yn penderfynu a ydynt yn rhoi amser penodedig i'r marcwyr farcio'r profion.

## Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 27:* Cyfarwyddir yr aelodau i wrthod cydymffurfio gydag unrhyw bolisi marcio ac asesu sy'n cynhyrchu llwyth gwaith gormodol a/neu sydd heb gael ei gytuno gyda NASUWT.**

Hyd nes y cyflwynir polisi sydd wedi'i gytuno gyda NASUWT, bydd yr aelodau'n marcio ac yn asesu disgyblion mewn ffordd sy'n gyson gyda'r egwyddorion hynny a geir yng nghanllawiau'r Undeb.

Mae'r cyfarwyddyd yn nodi'n glir na chaiff aelodau gydymffurfio gydag unrhyw bolisi marcio ac asesu sy'n cynhyrchu llwyth gwaith gormodol a/neu sydd heb gael ei gytuno gydag NASUWT.

Ni ddylid disgwyl i athrawon farcio'r profion.

Mae NASUWT yn dal i bryderu am y llwyth gwaith a gynhyrchir gan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a bydd yn parhau i anelu'n frwd at ddatrys y mater gyda Llywodraeth Cymru.

## Mewnbynnu data ac adrodd

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru:
- Y sgôr grai yn y Profion Cenedlaethol
- Y prawf a safwyd
- Dyddiad sefyll y prawf

Rhaid rhannu'r canlyniadau a nodwyd â rhieni/gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Os na all ysgolion ddarparu adroddiadau i rieni/gofalwyr erbyn diwedd tymor yr haf 2017, rhaid eu darparu erbyn 30 Medi 2018 fan bellaf.

## Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 25:* Dylai aelodau wrthod gwneud tasgau gweinyddol a chlercyddol fel y gwelir esiamplau ohonynt yn Atodiad 4 y STPCD.**

Ni ellir gofyn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol yn rheolaidd.

- Cadw a ffeilio cofnodion, gan gynnwys cofnodion a seiliwyd ar wybodaeth a ddarparwyd gan athrawon.
- Paratoi dadansoddiadau o ganlyniadau arholiadau.
- Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol.
- Trosglwyddo data mewn llawysgrifen am ddisgyblion nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr uchod i systemau rheoli'r ysgol ar gyfrifiadur.

Ni ddylid disgwyl i athrawon fewnbynnu data o'r profion.

***Cyfarwyddyd 7:* Cyfarwyddir aelodau i gynhyrchu un adroddiad ysgrifenedig yn unig i'r rhieni bob blwyddyn.**

Ni ddylai athrawon gynhyrchu mwy nag un adroddiad bob blwyddyn ar gyfer pob disgybl y maen nhw'n eu haddysgu, lle mae gofyn iddyn nhw wneud sylwadau ar gynnydd a pherfformiad y disgyblion, naill ai drwy ysgrifennu neu drwy ddefnyddio cronfa electronig o frawddegau safonol. Mae modd i ysgolion barhau i gynhyrchu adroddiadau interim nifer o weithiau'r flwyddyn ar gyfer yr holl ddisgyblion neu ar gyfer grwpiau o'r disgyblion ar yr amod bod modd cynhyrchu'r rhain yn weinyddol o'r data y mae'r ysgol yn eu casglu'n rheolaidd am ei disgyblion, ac nad oes gofyn i athrawon ymwneud â'r rhain yn uniongyrchol neu'n benodol.

## Camymddygiad

Os oes achos yn codi lle nad yw papur y dysgwr yn cyfateb i waith y dysgwr ei hun am unrhyw reswm rhaid i'r pennaeth gael gwybod a dylid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion y gall hyn fod wedi effeithio arnynt er gwybodaeth i'r marciwr, yr awdurdod lleol ac unrhyw ymchwiliad posibl.

## Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 27:* Cyfarwyddir yr aelodau i wrthod cydymffurfio gydag unrhyw bolisi marcio ac asesu sy'n cynhyrchu llwyth gwaith gormodol a/neu sydd heb gael ei gytuno gyda NASUWT.**

Ni ddylid disgwyl i athrawon farcio'r profion ond, os ydynt yn gwneud hynny, yna mae'n rhaid i aelodau sicrhau eu bod yn eu diogelu eu hunain yn erbyn unrhyw honiad o gamymddygiad ac mae angen iddynt dderbyn sicrhad na fydd eu gwaith o farcio'r prawf yn eu rhoi mewn sefyllfa allai beryglu eu henw da.

## Datganiad y pennaeth

O fewn saith diwrnod ysgol i'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno data, rhaid i'r pennaeth lofnodi a chyflwyno datganiad i'r consortiwm rhanbarthol (sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod lleol) yn cadarnhau bod y pecynnau prawf wedi cyrraedd ac wedi'u storio'n ddiogel, bod y profion wedi'u gweinyddu'n gywir yn unol â'r gofynion a amlinellwyd yn llawlyfr gweinyddu'r Profion Cenedlaethol, a bod y profion wedi'u marcio'n unol â'r cynllun marcio.

## Monitro trefniadau asesu

Bydd yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol yn cynnal rhaglen o ymweliadau monitro â sampl o ysgolion. Mae'n bosib i'r ymweliadau ddigwydd yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau canlynol.

- Yr wythnos cyn i'r profion gael eu gweinyddu i'r dysgwyr.
- Y cyfnod y mae'r profion yn cael eu gweinyddu i'r dysgwyr.
- Hyd at 20 diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod olaf y cafodd unrhyw un o'r profion ei weinyddu i'r dysgwyr.

## Y cyfarwyddyd gan NASUWT

***Cyfarwyddyd 25:* Dylai aelodau wrthod gwneud tasgau gweinyddol a chlercyddol fel y gwelir esiamplau ohonynt yn Atodiad 4 y STPCD.**

Ni ellir gofyn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol yn rheolaidd.

- Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol

Oni bai eu bod yn bennaeth ar yr ysgol, ni ddylai aelodau gymryd rhan yn y gwaith o weinyddu'r profion. O ran ymwneud yr aelodau yn y gwaith monitro, ni ddylai hyn fynd yn bellach na gwneud y gwaith o oruchwylio'r profion yn eu hystafell ddosbarth eu hunain.

Pan fydd hi'n dod yn amlwg bod disgwyl i athrawon baratoi ystafelloedd dosbarth, gweinyddu'r prawf, goruchwylio'r prawf mewn neuadd neu leoliad tebyg, a/neu farcio'r prawf, dylai aelodau gysylltu ag:

NASUWT Cymru
Clos Greenwood, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RD
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Ffôn: 029 2054 6080

siaradwch â ni

029 2054 6080
E-bost: rc-wales cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

NASUWT Undeb yr Athrawon CYMRU The Teachers' Union